# Tasglu'r Cymoedd

## Entrepreneuriaeth a Chyflenwi

Busnes | Business
Cymru | Wales

03000 6 03000
busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund


# Symleiddio’r Trefniadau ar gyfer Cael Cymorth

Mae Busnes Cymru’n cynnig un man cyswllt lle gall busnesau ac entrepreneuriaid gael cyngor a help gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae tair ffordd i gael y cyngor a’r help hwnnw:

- Llinell Gymorth Busnes Cymru – 03000 6 03000
- Gwefan – www.busnescymru.llyw.cymru
- Rhwydwaith o swyddfeydd ledled Cymru

Mae darparu un man cyswllt yn gyfle i symleiddio’r trefniadau ar gyfer helpu busnesau yn y Cymoedd.

# Entrepreneuriaeth – Cydweithio a Chydbwysedd



# Astudiaethau achos i ennyn trafod

Nododd y Tasglu diwetha’r blaenoriaethau canlynol:

- cyfathrebu positif ac ymgysylltu go iawn â’r gymuned,
- creu mwy o gyfleoedd i gael swyddi o ansawdd da a gwella sgiliau cyflogadwy, a mwy o integreiddio a chydgysylltu ar draws y gwasanaethau cyhoeddus,
- gwneud yn fawr o’r systemau a’r sefydliadau sy’n gweithio gyda’r cymoedd ac yn y cymoedd.

Gan weithio gydag Andrew, rydym wedi nodi pedwar maes cysylltiedig sy’n cynnig cyfleoedd ac yn ennyn trafod.

1. Ennyn hyder a meithrin capasiti trwy entrepreneuriaeth
2. Help i fusnesau bach a chanolig – Rheoli Cysylltiadau, Cynllunio olyniaeth
3. Ymgysylltu â busnesau a rhwydweithio
4. Help i ennyn twf mawr

# Ennyn hyder a meithrin capasiti trwy Entrepreneuriaeth

Pobl ifanc ac entrepreneuriaeth – Syniadau Mawr Cymru, 6-25

- https://businesswales.gov.wales/bigideas/starting-business-routemap


Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Enterprise TROOPERS
Y CRIW Mentrus

# Ennyn hyder a meithrin capasiti trwy Entrepreneuriaeth

## Camau nesaf Rhwydwaith Entrepreneuriaeth Busnes

Menter llawr gwlad yw hon sy'n targedu unigolion o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli sydd am ddechrau busnes.  Mae BEN yn ategu gwaith Busnes Cymru trwy gysylltu ag unigolion na fydden nhw efallai wedi ystyried entrepreneuriaeth fel ffordd arall i gael gwaith

## Ardal Fenter Glyn Ebwy a Las

- Rhannu prentisiaethau
- Prosiect Sirolli


abc
amser babi Cymraeg
activities for baby in Cymraeg
abc
I'm Bethan, I live in Mold and

# Help Craidd a Thwf gan Fusnes Cymru




Antur Teifi
Building Better Business

Business in focus
committed to your future
0870 950 90 90
www.businessinfocus.co.uk

Peninsula Enterprise
managed by
serco

Busnes Cymru | Business Wales

[redacted]

# Help Craidd a Thwf gan Fusnes Cymru

- Defnyddir y model 'segmentau' i flaenoriaethu'r help a roddir, yn ôl potensial y syniad busnes neu'r busnes ei hun i greu swyddi a thwf yn economi Cymru.

- Cysylltiadau uniongyrchol â Busnes Cymdeithasol Cymru os oes angen cymorth arbenigol

Astudiaeth Achos :

**<u>Rokel Engineering Ltd</u>** - Sefydlwyd y cwmni peirianyddol a gweithgynhyrchu hwn 40+ o flynyddoedd yn ôl. Mae ganddo drosiant o £500,000 sy'n cynal 11 o swyddi. Mae'r cwmni am gynyddu cynhyrchiant. I wneud hynny, mae angen buddsoddi mewn technoleg newydd ar ffurf plasma. Mae'r rheolwr cysylltiadau'n helpu'r cleient i wireddu ei ddyheadau i ehangu - symud i safle mwy a chreu 10 swydd arall yn y 2 flynedd nesaf. Mae gan y cwmni nifer o brosiectau ymchwil a datblygu. Amcan y busnes yw trosiant o £1M ymhen 3 blynedd. Trosiant o £500K ar hyn o bryd.

# Rheolwyr Cysylltiadau ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig

- Unigolion penodol i helpu Ardaloedd Menter Dyfrffordd y Daugleddau a Glannau Dyfrdwy.

- Yn cynnal y gweithgareddau canlynol :

  - Ysgrifenyddiaeth i Grwpiau Busnes
  - Trefnu digwyddiadau a siaradwyr
  - Cyfrwng cyfathrebu rhwng busnesau bach a chanolig yr ardal a’r Bwrdd
  - Yn gyswllt â Busnes Cymru, Addysg Uwch/Bellach a’r awdurdodau lleol.

- Yn trefnu gweithgarwch yn eu hardaloedd ac yn gyswllt ar gyfer y cymorth y gall y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ei gynnig.

# Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru

## *Disgrifiad o'r Gwasanaeth*

- Targedu busnesau sydd â photensial mawr a'r penderfyniad i dyfu ac sydd am fynd i'r cam nesaf

- Mae Rhaglen Cyflymu Twf (AGP) Busnes Cymru yn cynnig help arbenigol unigol i fusnesau bach a chanolig a busnesau cyn refeniw, gan gynnig, ymhlith pethau eraill, gasgliad o offer deinamig ar-lein i'w helpu i dyfu.

- Caiff ei ddarparu gan dîm o entrepreneuriaid profiadol sydd â busnesau twf llwyddiannus. Yn seiliedig ar y gred mai'r bobl orau i gynghori entrepreneuriaid yw entrepreneuriaid.

- I fod yn gymwys am help
    - Bydd eich cartref yng Nghymru
    - Heb ddechrau masnachu eto (rhaid dechrau masnachu cyn pen 12 mis) neu wedi bod yn masnachu hyd at 7 mlynedd
    - Potensial clir ac amlwg i dyfu
    - Potensial i greu swyddi
    - Potensial i allforio
    - Yn gobeithio tyfu 20%+ bob blwyddyn

# Sut byddwn yn eu helpu i chwalu'r rhwystrau mwyaf cyffredin i dwf cyflym

## 1. Dechrau

Entrepreneuriaid â syniad busnes gwych ond dim cwsmeriaid

## 2. Tyfu

Busnesau sy'n tyfu'n gyflym ar ôl dechrau <3 oed

## 3. Cyflymu

Busnesau sy'n gallu ehangu >3 & <7 oed

← 30% o'r busnesau ar y rhaglen →

← 70% o'r busnesau ar y rhaglen →

Byddwn yn dangos i'r **busnesau sy'n Dechrau** sut i...

- Wella model y busnes ar dudalen 1
- Wybod os ydy eu rhagdybiaethau'n ddisail
- Cynnal arbrofion gyda chwsmeriaid
- Profi a chaboli model y busnes
- Cael hyd i'w cwsmer cyntaf
- Recriwtio eu gweithwyr cyntaf
- Cael hyd i gyllid sbarduno ar gyfer dechrau
- Datblygu cwmni sy'n barod i allforio

Byddwn yn dangos i **fusnesau sy'n Tyfu** sut i...

- Fabwysiadu model fydd yn newid amodau'r gêm
- Cyflwyno "Peiriannau Twf"
- Nodi a threchu problemau
- Creu a diogelu syniadau gwych
- Creu is-fusnesau'n gyflym ac yn broffidiol
- Adeiladu tîm o weithwyr rhagorol
- Cael hyd i gyllid sbarduno
- Mentro i farchnadoedd allforio hawdd

Byddwn yn dangos i **Fusnesau sy'n cyflymu** sut i...

- Cymryd y cam i faes cyfagos
- Hwyluso pryniannau a phartneriaethau
- Peidio â mynd i'r wal
- Cymryd y cam mawr newydd llwyddiannus nesaf
- Creu diwylliant sy'n disgwyl y gorau
- Cynyddu capasiti
- Cael hyd i'r buddsoddiad cywir
- Dod yn chwaraewr ar lefel fyd-eang

Busnes Cymru | Business Wales

[redacted]

## Hwb i drafodaeth

# ANDREW DIPLOCK